COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored
12.00 y.p., Dydd Mawrth 23 Tachwedd 2021
Cynhaliwyd mewn sawl lleoliad, trwy gyfrwng meddalwedd Zoom

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 - 13.

1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Presennol: John Graystone (Cadeirydd), Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Jenni Jones-Annetts, Stephen Nicholls, Chris Franks, Judith Evans, Cathy Clark, Jan Tiley, Siôn Aled Owen, Dona Lewis, Victory Ezeofor. Roedd cworwm trwy gydol y cyfarfod.
Hefyd yn Bresennol: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc); Steffan Wiliam (cyfieithydd - gwasanaeth cyfieithu ar y pryd). Hefyd Chris Denham (Arweinydd Trawsnewid ADY ColegauCymru, AB - cofnodion 1 a 2 yn unig).
Ymddiheuriadau: Marion Burke, Gareth Cork, Caroline Davies, Salamatu Fada, Tim Palazon, Toni Schiavone (Is-gadeirydd).
Absennol: Steve David, Carl Hoskins.

2. Datblygiadau ynghylch Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ALNET)

Fe wnaeth Chris Denham, yn gweithio ar ran ColegauCymru i baratoi colegau i gyflwyno gofynion ADY, rannu cyflwyniad PowerPoint gyda'r Cyngor. Roedd Deddf ALNET Ionawr 2018 wedi cyflwyno cod gorfodol a set eilaidd o reoliadau, yn cynnwys penodiad gorfodol Cydlynydd ADY ym mhob sefydliad. Roedd y cyfnod trawsnewid hir yn dirwyn i ben ac roedd rhai datblygiadau allweddol penodol eisoes wedi'i sefydlu - Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a chyfranogiad gorfodol rhieni yn achos pobl ifanc dan 25 mlwydd oed, ac arferion yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er enghraifft. Roedd gweithredu cam cyntaf y diwygiadau wedi cychwyn ym mis Medi, ond nid oedd cadarnhad ar y pryd ynghylch pryd fyddai pob agwedd ôl-16 o'r ddeddfwriaeth yn cael eu cyflwyno - efallai ym Medi 2022. Yn anffodus, nid oedd wedi bod yn bosibl creu un system rheoli gwybodaeth ar gyfer anghenion myfyrwyr o'r fath yng Nghymru; byddai cyfanswm o tua 6 system o'r fath, a byddai angen sicrhau fod pob un yn gydnaws.

Y nod oedd sefydlu dull mor gydweithredol ag y bo modd rhwng yr awdurdodau amrywiol oedd dan sylw – iechyd, unedig, ysgolion a cholegau, a gofal cymdeithasol. Roedd prosesu datrys anghytundeb a hawliau i apelio yn rhan o'r rheoliadau; lle'r oedd sefyllfaoedd gwrthwynebus yn codi yn anffodus, roedd Chris Denham bellach yn cynnal hyfforddiant gyda cholegau i sicrhau fod gwrandawiadau tribiwnlys ffurfiol fel diwedd i'r prosesau yn digwydd mor anaml ag oedd yn ddichonadwy.

Gorweddai mewnbwn ar ADY gyda'r holl staff a sectorau mewn sefydliadau addysgol - gwasanaethau dysgwyr, tiwtoriaid, TG (gwefannau), ystadau, marchnata, cymorth busnes, uwch reolwyr, ac ati - a'r cyrff llywodraethu oedd yn bennaf gyfrifol. Yn naturiol, byddai tîm ADY â chymwysterau da yn ganolog i brosesau, ond roedd angen i'r staff academaidd cyfan allu gwahaniaethu'n effeithiol rhwng dysgwyr ar

sail ADY. Er bod gan AOC | ALW lai o gyfrifoldebau a dyletswyddau o ran CDU ac adolygiadau ar gyfer myfyrwyr iau na cholegau AB eraill, serch hynny, byddai ei heriau'n sylweddol. Felly roedd yn ddechrau da ei fod eisoes wedi nodi ei ddatganiadau Darpariaeth Dysgu Cyffredinol (ULP) a Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY) yn gyhoeddus. Byddai disgwyl i 'addasiadau rhesymol' i fyfyrwyr, fel rhan o gymhwyso'r Ddeddf Cydraddoldeb yn y maes hwn.

Roedd 13% o ddysgwyr AOC | ALW o dan 25 mewn gwirionedd; ystadegyn yr un mor berthnasol oedd bod hyd at 33% o fewnbwn rhai colegau o natur ADY, er nad oedd yn eglur beth fyddai'r gyfran mewn addysg oedolion yn y pen draw o dan y darpariaethau newydd. Efallai y bydd cyfle yn cael ei greu yma ar gyfer AOC | ALW, yn yr ystyr y gallai colegau ddymuno cynnig addysg amgen hyblyg i ddysgwyr ADY. O ystyried bod awdurdodau lleol hefyd wedi cael cyfrifoldeb ychwanegol ond ychydig iawn o gyllid ychwanegol ar gyfer hyn (ac eisoes wedi gorwario yn hanesyddol ar ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig) yna gallent hwythau hefyd geisio partneriaethau addysgol yn y maes hwn. Diolchwyd i Chris Denham am ei gyfraniad a gadawodd y cyfarfod ar yr adeg hon.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr, Tachwedd 2021

Dechreuodd Kathryn Robson trwy ddarparu diweddariad ar broses Llywodraeth Cymru a ail-ddechreuwyd ar weithredu diwygiadau PCET (addysg a hyfforddiant ôl-orfodol). Eisteddai, fel cynrychiolydd addysg oedolion, ar y Bwrdd Strategaeth a Gweithredu PCET newydd. Ar ben hynny, roedd AOC | ALW newydd gael ei wahodd i wneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar ar ei farn am y Bil drafft a sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, i'r Pwyllgor Senedd priodol ymhen cwpl o wythnosau. Cadarnhawyd bod AOC | ALW yn parhau i gynnig ei hun fel y corff cenedlaethol i gydlynu dysgu oedolion yn y gymuned: **byddai dogfennaeth wreiddiol 2018 a oedd wedi nodi'r safbwynt hwnnw ('Model ar gyfer Llwyddiant') yn cael ei ddosbarthu ymhlith aelodau presennol y Cyngor**. Roedd y ffaith ein bod bellach hefyd yn gallu darparu 'siop ddigidol un stop' ar gyfer dysgu o'r fath yn bwynt cryf arall o'n plaid yr oedd Estyn ymhlith eraill wedi'i gydnabod.

Ar faterion cwricwlaidd, yn ymwneud ag ADY, nodwyd bod ein Cydlynydd ADY Clare Charalambous wedi tanlinellu'r anhawster o godi anghenion o'r fath ymhlith dysgwyr hŷn a oedd wedi cuddio eu gofynion dros nifer o flynyddoedd. Byddai buddsoddi mewn datblygu staff yn allweddol i weithredu hynny'n effeithiol, felly, ac roedd grŵp mewnol yn cwmpasu'r pwynt hyfforddi hwnnw yn ogystal ag agweddau eraill ar gyflawni'r dyddiadau gweithredu oedd yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth. Gwelwyd nifer cynyddol yn dewis addysgu wyneb yn wyneb, gan gynnwys yn rhanbarth Gogledd Cymru, er bod cynnydd yn y nifer o ddysgwyr yn absennol mewn dosbarthiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb hefyd wedi'i nodi. Gydag ESOL, blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, bellach yn cynrychioli 40% o allbwn addysgol AOC | ALW, roedd rhai aelodau o'r Cyngor eisiau gweld meysydd eraill yn tyfu hefyd – megis yn hyfforddiant peiriannau diwydiannol.

Darparwyd diweddariadau ar geisiadau grant, gan gynnwys cais o £300,000 am estyniad i brosiect AMIF (Cronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio). Mewn ceisiadau grant dros y flwyddyn flaenorol yn gyffredinol, roedd 65% wedi'u cymeradwyo, 20% wedi'u gwrthod a 15% yn yr arfaeth. Roedd y Gronfa Mentrau Gwyrdd y cyfeiriwyd ati yn yr adroddiad wedi bod ar gyfer ymestyn darpariaeth addysgol ar-lein. Mewn datblygiadau eraill yn gysylltiedig ag ynni, gwnaed ymchwil ar osod paneli solar o bosibl yn y swyddfeydd oedd yn eiddo i'r Sefydliad ym Mangor a Chaerdydd, ond ni fu'n ddichonadwy i'w gosod. Roedd polisïau amgylcheddol yn gyffredinol i gael eu trafod gan y Pwyllgor Archwilio yn 2022, a byddai'r ffaith fod Dawn Rogers, y Rheolwr Iechyd, Diogelwch, Amgylcheddol ac Ystadau, yn cychwyn yn ei swydd yr wythnos honno yn arwain at gyflymu gwaith paratoi ynghylch y materion hynny.

Roedd yn ymddangos bod problem gyda recriwtio, yn enwedig i swyddi yn ne-orllewin Cymru ac i swyddi tiwtoriaid - her oedd yn wynebu ystod o sefydliadau ar hyn o bryd. Y gobaith oedd denu rhai athrawon

wedi ymddeol i lenwi rhai o'r swyddi hynny; awgrymodd Victory Ezeofor recriwtio posib ymhlith gwŷr a gwragedd y rhai a ddeuai i astudio neu ddysgu o dramor mewn prifysgolion yng Nghymru. Trafodwyd y modd a ddefnyddir i hysbysebu swyddi gwag, agweddau sgiliau Cymraeg y broses, a'r cyfnod sefydlu a ddarperir i recriwtiaid newydd.

4. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 30 Medi 2021 a materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion trafodion Busnes Agored cyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd trwy Zoom, fel cofnod cywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi y tro hwn. Ers hynny roedd Suzanne Samuel wedi camu i lawr o'i rôl fel llywodraethwr, ac roedd Siôn Aled Owen yn ymddangos am y tro cyntaf yn rhinwedd ei swydd fel llywodraethwr newydd ei ethol ar gyfer rhanbarth gogledd-ddwyrain Cymru.

5. Cofnodion y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2021

Soniodd Steve Nicholls am y materion dilynol niferus a fyddai gerbron y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr. Cyfeiriodd hefyd at y cofnodion yn ymwneud â materion marchnata, y canllawiau personél gweithio ystwyth, ac at yr oedi bychan o ran datblygiadau wrth brynu adeilad yng Nghasnewydd ac wrth ddefnyddio gwaddol Tudor Bowen Jones. Roedd yr ymgynghorydd a benodwyd gan y Brifysgol Agored yng Nghymru ar fater defnydd y gwaddol hwnnw yn mynd i gyflwyno adroddiad arno yr wythnos honno. Nododd y Cyngor y cofnodion.

6. Cyfrifon Rheoli ar gyfer 1 Awst -31 Hydref 2021

Dri mis i mewn i'r flwyddyn ariannol, ac roedd y potensial am fân ddiffyg, yn hytrach na'r gwarged bach wedi'i gyllidebu, yn amlwg yn y ffigurau. Roedd maint dosbarthiadau llai ar gyfartaledd (boed yn gorfforol, yn rhithwir neu'n hybrid) yn golygu her ariannol o ystyried costau llogi tiwtor ac ystafell, a chydbwysedd anodd rhwng ateb y galw a fforddiadwyedd. Parhaodd y trafodaethau ar y posibilrwydd o darged darpariaeth addysgol is ar gyfer y flwyddyn gyda Llywodraeth Cymru. Roedd cyrff addysgol eraill hefyd wedi gweld y duedd hon o ostyngiad, a'r ffaith nad oedd dosbarthiadau traddodiadol mwy eu maint mewn ardaloedd dinesig o reidrwydd yn gwneud iawn am ddosbarthiadau llai mewn ardaloedd gwledig. Cadarnhawyd bod nodiadau atgoffa yn cael eu hanfon at bob dysgwr cyn dechrau cyrsiau i'w hannog i ddod. Codwyd cwestiwn a ddylid codi tâl ar ddysgwyr a oedd yn absennol o'r dosbarthiadau: dyna un opsiwn a oedd yn cael ei ystyried, ymhlith llawer. Trafodwyd heriau dulliau addysgu hybrid hefyd, gyda mwy o brofiad yn golygu bod y technegau'n dod yn fwy soffistigedig.

7. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2021

Nododd Chris Franks gasgliadau cysur cyffredinol yr adolygiadau a gynhaliwyd gan yr archwilwyr mewnol (TIAA), fel yr adroddwyd yng nghofnod 5. Tynnodd sylw yn bennaf, fodd bynnag, at gofnod 3, a nododd fanylion ar ganlyniad terfynol trosglwyddo pum aelod o staff o Goleg y Cymoedd i AOC | ALW. Fe wnaeth Judith Evans ddatgan buddiant ynghylch y mater hwn. Er bod diwydrwydd dyladwy blaenorol wedi'i gynnal yn drylwyr, a bod cadw oriau addysg sylfaenol oedolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn ffactor yn y penderfyniad, nid aeth y tair blynedd ers i'r trosglwyddiad yn unol â'r cynllun, gan arwain at golled gyffredinol dros yr amser hwnnw o oddeutu £330,000 i'r Sefydliad. Roedd yn galonogol bod gan AOC | ALW gronfeydd wrth gefn sylweddol, o ganlyniad i'r polisi cadarnhaol ar eu croniad a roddwyd ar waith yn ddiweddar, i dalu am golled o'r fath. Daeth y Pwyllgor i ben trwy gydnabod yr hyn a ddigwyddodd a rhoi sylwadau pe bai cyfleoedd tebyg yn codi yn y dyfodol, yna byddai angen craffu ychwanegol, oherwydd eu bod yn cynnwys risgiau sylweddol: byddai ychwanegu risg benodol ar y

Gofrestr Risg ar gyfer digwyddiad trosglwyddo o'r fath yn ddarbodus. Ychwanegodd Steve Nicholls, ar ran y Pwyllgor Adnoddau, y gallai fod wedi bod yn well pe bai'r ffigurau cyffredinol negyddol ar gael iddo yn gynharach, gan fod maint y golled fel yr eglurwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio yn newyddion iddo. Nododd y Cyngor y cofnodion.

8. Cofrestr Risgiau Tachwedd 2021

Adroddodd Chris Franks fod cwestiynau Cadeirydd y Cyngor am y Gofrestr, a godwyd yng nghyfarfod mis Medi, wedi cael eu hateb gan y Pwyllgor Archwilio (cofnod 4 y Pwyllgor) a oedd yn teimlo ei fod yn parhau i fod yn ddogfen hynod effeithiol yn ei maint a'i fformat cyfredol, a chredai y dylid parhau â'r un fformat. Roedd rhai pwyntiau manwl a godwyd gan yr aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Paul Charlton wedi'u hymgorffori yn y fersiwn wedi'i diweddaru o'r Gofrestr a oedd gerbron y Cyngor. Cadarnhaodd aelodau'r Uwch Dîm Rheoli fod y Gofrestr yn cael ei hystyried yn offeryn defnyddiol yn eu cyfarfodydd eu hunain.

9. Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 1 Tachwedd 2021

Dywedodd Cathy Clark fod y datblygiadau mewn perthynas ag iechyd a lles yn galonogol. Fel prif lywodraethwr ar y mater hwn roedd hi eisoes wedi gweld y pecyn cymorth addysgu y soniwyd amdano yng nghofnod 3 - roedd yn llawn syniadau defnyddiol, ond yr her yn ei barn hi oedd sut i ymgorffori cynnwys o'r fath ym mhob un o'r amrywiaeth o ddarpariaeth a oedd ar gael. Roedd yn nodedig bod y rhaniad rhyw ymhlith myfyrwyr bellach yn fwy eithafol nag o'r blaen, gyda 70% o ddysgwyr yn y flwyddyn flaenorol yn fenywod. Yn ei barn hi, o ran cofnod 7, roedd yn dda bod adborth dysgwyr bellach yn ddienw (ac felly'n fwy tebygol o fod yn onest) trwy fod ar-lein. Ac o ran **diogelu a'r rhaglen *Prevent*, roedd y deunyddiau hyfforddi i ddysgwyr bellach wedi'u cwblhau'n ddwyieithog, a byddai dolenni iddynt ar gael i aelodau'r Cyngor**. Nododd y Cyngor y cofnodion.

10. Adroddiad ynghylch y Cwricwlwm, Tachwedd 2021

Cydnabu Mark Baines yr anhawster o ddarparu gwybodaeth newydd a phersbectif newydd yn yr adroddiad hwn ar bob achlysur, gan fod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr a'r Cyngor ei hun wedi derbyn fersiynau tebyg dros yr wythnosau blaenorol. Dywedodd Steve Nicholls y byddai'n ddefnyddiol cael y ffigurau myfyrwyr bob tymor, o leiaf, ar agenda'r Pwyllgor Adnoddau hefyd.

11. Holiadur Adolygu Llywodraethu a'r trafodaethau dilynol unigol

Dywedodd Stephen Thomas fod 10 (o blith uchafswm o 19) o ymatebion i'r holiadur wedi'u cwblhau gan aelodau'r Cyngor. Roedd yn cynnwys un ar bymtheg o atebion 'tick box' i raddau helaeth: oherwydd y fformat Microsoft Forms a ddefnyddiwyd, roedd ymatebion yn anhysbys. Rhoddwyd dyddiad cau o 30 Tachwedd i eraill ei lenwi, cyn cwblhau amserlen ar gyfer yr ail gam, sef trafodaethau 1-i-1 rhwng un o blith tri swyddog y Cyngor ac aelodau eraill.

12. Hunan-arfarniad o drafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor a chynlluniau ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol

Bwriad y Pwyllgorau Adnoddau ac Archwilio oedd parhau i gynnal eu cyfarfodydd fel rhai 'cyfunol' (hybrid), gan ddefnyddio ystafell gyfarfod yn swyddfa Caerdydd. Roedd yn ymddangos nad oedd

awdurdodau lleol yn bwriadu dilyn trefniadau cyfarfod o'r fath tan wanwyn 2022. Nododd dau aelod pa mor ddefnyddiol oedd y cyflwyniad ar Anghenion Dysgu Ychwanegol; a mynegodd Jan Tiley ei gwerthfawrogiad am gael benthyg gliniadur gan y Sefydliad, a oedd wedi gwneud ei chyfranogiad trwy fideo mewn cyfarfodydd yn llawer mwy cadarn yn dechnolegol.

13. Gweddill dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2021-22

- Dydd Llun 24 Ionawr 2022
- Dydd Iau 17 Mawrth 2022
- Dydd Gwener 8 Ebrill 2022 (CCB)
- Dydd Mawrth 10 Mai 2022
- Dydd Llun 4 Gorffennaf 2022

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Cam gweithredu a gytunwyd	Pwy ddylai weithredu	Erbyn pryd ddylid gweithredu
Cofnod 3	Adroddiad y Prif Weithredwr, Tachwedd 2021	Byddai dogfennaeth wreiddiol 2018 a oedd wedi nodi safbwynt AOC | ALW ar newidiadau i ddysgu oedolion yn y gymuned ('Model ar gyfer Llwyddiant') yn cael ei ddosbarthu ymhlith aelodau cyfredol y Cyngor.	ST	Ionawr 2022
Cofnod 9	Cofnodion y Pwyllgor Profiad Dysgwyr ar 1 Tachwedd 2021	O ran diogelu a'r rhaglen *Prevent*, roedd y deunyddiau hyfforddi i ddysgwyr bellach wedi'u cwblhau'n ddwyieithog, a byddai dolenni iddynt ar gael i aelodau'r Cyngor.	ST	Ionawr 2022